Cyfeiriad Cofrestredig:
16 Overlea Crescent
Deganwy
Conwy
LL31 9TB
Ffôn: 01492440625
Rhif ffon symudol: 07450257555

Registered Charity Number: 1189761

# Polisi'r Gymraeg SEAS

Mae SEAS yn elusen gofrestredig sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr er budd pobl anabl, eu gofalwyr a'u teuluoedd yng Ngogledd Cymru. Rydym yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau i gynyddu ymgysylltiad, gallu a chyfranogiad trwy ddefnyddio egwyddorion a gwerthoedd datblygu cymunedol.

## Rhagymadrodd

Rydym yn cydnabod fod gan y Gymraeg statws swyddogol dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Credwn hefyd ei fod yn dangos parch at ein sefydliadau partner i annog a hwyluso'r defnydd o ddewis iaith y cyfranogwyr.

Credwn ei bod yn rhesymol i weithio tuag at ddarparu gweithgareddau yn dewis iaith ein cyfranogwyr. Credwn hefyd ei fod yn dangos parch at ein sefydliadau partner i annog a hwyluso'r defnydd o ddewis iaith y cyfranogwyr.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni hyn, ac mae Polisi'r Gymraeg hwn yn amlinellu ein hymrwymiad cyfredol o ran defnyddio'r Gymraeg, a hefyd, lle bo'n briodol, gosod targedau i'n helpu i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.

Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymiad yn y polisi hwn mewn modd rhesymol, ac wedi'i gyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

Anfonwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:

Richard Horovitz  (Cadeirydd) seassailability@yahoo.com

## Polisi

Rydym ni ceisio i sicrhau bod aelod o SEAS sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhob un o'n sesiynau, er efallai na fydd hynny'n ymarferol o bosibl bob amser.

Mae ein cyfrifon yn uniaith Saesneg. Byddwn yn darparu ffurflenni a dogfennau dwyieithog pan fo'n ymarferol bosibl.

Rydym ni yn cydnabod yng Nghymru, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso, pan fo'n ymarferol bosibl, defnydd o'r Gymraeg a Saesneg mewn cyfarfodydd.

Rydym yn cydnabod fod gan bawb y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd, fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau partner barchu dewisiadau ieithyddol.

Bydd ymddiriedolwyr SEAS yn sicrhau y cefnogir y polisi hwn drwy gydol gweithgareddau SEAS.

Bydd y polisi hwn ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ar ein gwefan. Bydd pob ymddiriedolwr SEAS yn derbyn copi o'r polisi hwn, ac arweiniad ar ei ofynion.

Byddwn yn asesu'r polisi hwn, a'i ddiwygio bob tair blynedd o leiaf, neu ar gais.

Defnyddiwyd templed Comisiynydd y Gymraeg i greu'r Polisi Iaith hwn. Fodd bynnag, nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am fonitro safon ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch gweithredu'r polisi hwn atom ni i'r cyfeiriad a roddir ar y dudalen flaen.

*Perchennog y ddogfen:* *SEAS*
*Cymeradwywyd y ddogfen gan:*
*Ymddiriedolwyr SEAS*
*Dyddiad cymeradwyo'r polisi:* *Gorff 2021*
*Dyddiad adolygiad nesaf:* *Gorff 2024*